

Gwlithen Fôr Fioled (*Edmundsella pedata*) © Lara Howe

Rhwydwaith Môr Iwerddon

# Ystyriaethau Ecolegol ar gyfer Cynllunio Gofodol Morol ym Môr Iwerddon

Rhoi llais i fyd natur yn y broses cynllunio gofodol morol

## Dogfen gryno

**Mae Môr Iwerddon iach a ffyniannus (Ffigur 1) yn sail i'r economi, cymdeithas a llesiant dynol drwy ddarparu nwyddau a gwasanaethau hanfodol.**

Fodd bynnag, mae pwysau anthropogenig sylweddol ac eang yn golygu bod yr ecosystemau morol ym Môr Iwerddon yn cael eu diraddio. Mae graddfa gweithgareddau'r dyfodol a'r galw cynyddol am ofod môr yn ychwanegu at y pwysau hyn. Er mwyn cyrraedd targedau sero net, bydd angen gosod datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fawr ym Môr Iwerddon. Ochr yn ochr â hyn, mae pob gwlad wedi ymrwymo i ddiogelu a rheoli 30% o'i moroedd yn effeithiol erbyn 2030 (CBD, 2022). Er bod ardaloedd morol gwarchodedig wedi'u dynodi ar draws Môr Iwerddon, mae'r warchodaeth mae'r safleoedd hyn yn ei rhoi mewn gwirionedd yn gyfyngedig, gyda'r mwyafrif heb fawr ddim rheolaeth yn ei lle (Rhwydwaith Môr Iwerddon, 2022a; Schere, et al., 2020). Er mwyn mynd i'r afael â'r ddau argyfwng, sef newid yn yr hinsawdd a cholli bioamrywiaeth, mae'n hanfodol ein bod ni'n cyrraedd targedau sero net a thargedau gwarchod ac adfer yr ecosystemau morol.

Fel Rhwydwaith Môr Iwerddon, mae cynrychiolwyr ar gyfer pob un o Ymddiriedolaethau Natur y chwe gwlad a sefydliadau partner[1] wedi dod at ei gilydd i gytuno ar ein safbwynt ar faterion allweddol ym Môr Iwerddon a rhoi llais i fyd natur yn y broses cynllunio gofodol morol. Mae angen i lunwyr polisïau a rhanddeiliaid ddod at ei gilydd i greu cynlluniau sy'n cyd-fynd sydd o fudd i'r holl fywyd gwyllt a chymunedau o amgylch Môr Iwerddon. Mae llawer o gynlluniau morol yn cael eu hadolygu neu eu datblygu ar hyn o bryd sy'n rhoi amser unigryw i ddylanwadu ar gynllunio morol. Oherwydd y rhyng-gysylltiadau rhwng ecosystemau morol a'r newidiadau ar raddfa fawr a ragwelir, rhaid i bob un o'r chwe gwlad gydweithio i fynd i'r afael â'r pwysau trawsffiniol sy'n effeithio ar Fôr Iwerddon.

> **Mae Rhwydwaith Môr Iwerddon yn credu y byddai cynllunio gofodol morol rhanbarthol strategol ac effeithiol sy'n defnyddio dull gweithredu seiliedig ar ecosystemau gyda chydweithrediad traws-genedlaethol, yn lleihau'r effaith ar, ac yn gwella, cynefinoedd bywyd gwyllt sensitif a storfeydd carbon, a achosir gan bwysau aml-sector.**
>
> ***Rhwydwaith Môr Iwerddon (2022b)***

## Cyfeiriadau


CBD, 2022. Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang Kunming-Montreal. Cynhadledd y Partïon i'r Confensiwn ar Amrywiaeth Fiolegol - Pymthegfed cyfarfod – Rhan II. Ar gael yn: https://www.cbd.int/doc/decisions/cop-15/cop-15-dec-04-en.pdf

Rhwydwaith Môr Iwerddon, 2022a. Adolygiad Rhwydwaith Môr Iwerddon o Fôr Iwerddon 2022. Ar gael yn: https://www.livingseasnw.org.uk/sites/default/files/2022-09/The%20Irish%20Sea%20Network%27s%20review%20of%20the%20Irish%20Sea%202022%20-%20English.pdf

Rhwydwaith Môr Iwerddon 2022b. Gweledigaeth 2030 y Rhwydwaith ar gyfer Môr Iwerddon -Saesneg. Ar gael yn: https://www.livingseasnw.org.uk/sites/default/files/2022-09/The%20Network%27s%202030%20vision%20for%20the%20Irish%20Sea%20-English_0.pdf

Schéré, C. M., Dawson, T. P., a Schreckenberg, K., 2020 Multiple conservation designations: what impact on the effectiveness of marine protected areas in the Irish Sea?, International Journal of Sustainable Development & World Ecology, 27:7, p596-610, https://doi.org/10.1080/13504509.2019.1706058



1 Mae Rhwydwaith Môr Iwerddon yn bartneriaeth o 10 Ymddiriedolaeth Natur o bob rhan o Fôr Iwerddon*, Tasglu Morol Gogledd Iwerddon, Ymddiriedolaeth Natur Iwerddon, a'r Rhwydwaith Dŵr Cynaliadwy (SWAN).

** Ymddiriedolaeth Natur Manaw, Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru, Ymddiriedolaethau Natur Gogledd Orllewin Lloegr (Cumbria, Swydd Gaerhirfryn a Swydd Gaer), Cymdeithas Frenhinol yr Ymddiriedolaethau Natur, Ymddiriedolaeth Natur yr Alban, Ulster Wildlife, Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru ac Ymddiriedolaethau Natur Cymru.*

Mae Blaenoriaethu Gofodol Morol (MSPri) yn cynnig cyfle i greu cynlluniau morol sydd ag adferiad byd natur a chyflawni sero net yn greiddiol iddynt. Rhaid i gynlluniau fod yn strategol, yn effeithiol ac yn cyd-fynd, gan ystyried effeithiau cronnol gweithgareddau ar raddfa Môr Iwerddon, gyda chydweithredu gan bob gwlad o amgylch Môr Iwerddon.

Mae Rhwydwaith Môr Iwerddon yn argymell bod rhaid i'r Cynlluniau Gofodol Morol nesaf ym Môr Iwerddon gyflawni'r canlynol:

1. **Sicrhau cydweithredu trawsffiniol** yn ystod y broses cynllunio morol i alinio cynlluniau ar draws Môr Iwerddon a sicrhau bod pob un o'r chwe gwlad yn gweithio tuag at yr un nodau o adfer byd natur a chyflawni sero net
2. **Rhoi blaenoriaeth i fyd natur,** gan sicrhau ei fod yn llinyn euraidd drwy bopeth, heb hyn bydd cynaliadwyedd yr holl weithgareddau morol eraill yn cael eu peryglu.
3. **Gwneud cynlluniau yn ofodol eglur.** Datblygu proses i flaenoriaethu a chynllunio'n strategol pa weithgareddau all ddigwydd ym mha leoliad. Gellir cyflawni hyn drwy gyfrifo'r gofynion presennol a'r gofynion a ragwelir ar Fôr Iwerddon, cyfrifo capasiti cludo Môr Iwerddon a chynnal mapio sensitifrwydd a chynllunio senarios.
4. **Cynnwys cynllun ar gyfer adferiad byd natur** er mwyn cyrraedd 30 erbyn 30. Er mwyn i MPAs gyfrif tuag at 30 erbyn 30, rhaid iddynt fod â chynlluniau i gryfhau a gweithredu mesurau rheoli a chynlluniau i fonitro a gorfodi'r mesurau hyn. Rhaid cydnabod yr angen am warchodaeth forol lymach ar draws safleoedd cyfan ac ardaloedd sydd wedi'u neilltuo ar gyfer adfer cynefinoedd.
5. **Rhoi blaenoriaeth i gyflawni sero net** ochr yn ochr ag adferiad byd natur. Gellir cyflawni hyn drwy gynlluniau i leihau'r defnydd o ynni a gwella effeithlonrwydd ynni, datblygu ynni adnewyddadwy morol cynaliadwy yn y lleoliad priodol, ar y raddfa briodol a gyda'r dechnoleg briodol a gweithredu atebion sy'n seiliedig ar natur.
6. **Ystyried senarios newid yn yr hinsawdd** a meithrin gwydnwch tymor hir ecosystemau morol a gweithgareddau morol.
7. **Cynnwys cynllun ar gyfer cyflawni trawsnewid cyfiawn** i ddefnyddwyr y môr a chymunedau arfordirol a'u cynnwys ym mhob cam o'r broses gynllunio.




***Ffigur 1:*** *Ffin Môr Iwerddon (Charting Progress 2, 2010). Gweithgareddau sy'n digwydd ym Môr Iwerddon ac Ardaloedd Morol Gwarchodedig ym Môr Iwerddon.*

Partneriaid:

Irish Wildlife Trust · Manx Wildlife Trust / Treisht Bea-Feie Vannin · Northern Ireland Marine Task Force · Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru / North Wales Wildlife Trust · North West Wildlife Trusts · Scottish Wildlife Trust · Wildlife Trust of South & West Wales / Ymddiriedolaeth Natur De a Gorllewin Cymru · Sustainable Water Network SWAN · Ulster Wildlife · Wildlife Trusts Wales / Ymddiriedolaethau Natur Cymru · The Wildlife Trusts

Partneriaid Ariannu:

Esmée Fairbairn Foundation · John Ellerman Foundation